

# Effaith Cymorth Menter ym Mhrifysgol Aberystwyth

## Medi 2022 – Awst 2023

Tony Orme	Hyrwyddwr Menter	<a href="mailto:awo@aber.ac.uk">awo@aber.ac.uk</a>	07773 471245
Louise Somerfield	Swyddog Menter	<a href="mailto:los14@aber.ac.uk">los14@aber.ac.uk</a>	01970 622378

---

### Ym Mhrifysgol Aberystwyth rydym wedi ymrwymo i:

- Annog arloesedd sy'n deillio o syniadau a gweithredoedd newydd, mewn cyd-destun entrepreneuraidd, gan ymdrechu i ddatgloi potensial unigolion
- Grymuso ein holl fyfyrwyr, waeth beth fo'u maes pwnc neu lefel eu hastudiaethau, i feithrin sgiliau perthnasol (gan gynnwys sgiliau a chymwyseddau entrepreneuraidd) drwy sicrhau bod y rhain yn bresennol yn y cwricwlwm
- Ymgorffori sgiliau cyflogadwyedd (ac, yn benodol, menter) ar draws ein holl raglenni, gan gynnwys rhagor o gyfle i gael profiad gwaith, gwirfoddoli, profiad rhyngwladol a sgiliau trosglwyddadwy eraill
- Buddsoddi i ddatblygu effaith ein hymchwil a sgiliau entrepreneuraidd ein hymchwilwyr
- Meithrin meddylfryd amrywiol ymhob agwedd ar y cwricwlwm academaidd a thrwy weithgareddau allgyrsiol, yn benodol o ran mentergarwch, entrepreneuriaeth ac *intrapreneuriaeth*, gan ddefnyddio'r model sgiliau EntreComp newydd

---

### Nod y priodoleddau rydym yn eu hyrwyddo trwy ein dull gweithredu a'n gweledigaeth yw sicrhau bod ein myfyrwyr a'n graddedigion yn:

- Gynhwysol: ym mhob peth a wnânt, ac â phawb sy'n croesi eu llwybr
- Dyfeisgar: wrth feithrin eu sgiliau i feddwl y tu hwnt i ffiniau a datrys problemau byd-eang (a lleol)
- Ysbrydoli: wrth ddefnyddio pob cyfle y dônt ar ei draws, a datgloi eu potensial ar gyfer y dyfodol
- Annibynnol: wrth ddatblygu i fod yn ddinasyddion gwybodus a hyderus
- Unigolion: sy'n creu eu llwybrau gyrfa a'u cyfraniadau unigryw eu hunain i'r byd

Mae'r priodoleddau hyn yn hynod berthnasol i'n graddedigion wrth iddynt fwrw iddi i sefydlu a rhedeg busnesau a mentrau cymdeithasol newydd.

Ein Cenhadaeth, o ran Entrepreneuriaeth, yw sicrhau bod ein hymdrech i ennyn diddordeb myfyrwyr yn gydnaws â'n hymgyrch i ymgysylltu, grymuso a pharatoi ein myfyrwyr mewn ffordd sy'n ategu'r blaenoriaethau economaidd Rhanbarthol a amlygwyd yng Nghynllun Gweithredu ar yr Economi Cymru.

---

### Roedd 'taith y myfyriwr' yn Aberystwyth yn 2022-23 yn rhoi cyfle i'n myfyrwyr i:

- Ymgysylltu â chysyniadau entrepreneuriaeth, intrapreneuriaeth a busnes a mentrau cymdeithasol newydd drwy "ddigwyddiadau treiddgar entrepreneuraidd"; sgysiau adrannol; Ffeiriau Wythnos y Glas a'r Ffair Yrfaoedd.
- Cael profiad o hanes ysbrydoledig modelau rôl Syniadau Mawr Cymru Lleol a chyflwynwyr sy'n gyn-fyfyrwyr i ysbrydoli entrepreneuriaeth
- Mynychu cyfres barhaus o weithdai 'arfogi' sy'n cwmpasu Ymchwil y Farchnad, Marchnata, Eiddo Deallusol, Cyllid a chadw cyfrifon, Treth, Rhwydweithio, marchnata digidol, Cyllido torfol ac ati - ymgorffori Wythnos Menter Fyd-eang

- Cymryd rhan yn ein Gwobr Menter Aber blynyddol – Cystadleuaeth Syniadau Myfyrwyr
- Cael mynediad i sesiynau mentora un i un gyda mentoriaid busnes Syniadau Mawr Cymru, a gynhelir ar-lein ac wyneb yn wyneb
- Cymryd rhan yn Wythnos Cychwyn Busnes yr Haf. Fe'i cynhaliwyd ym mis Mehefin ac roedd yn wythnos lawn gweithdai wedi'u cynllunio i roi'r wybodaeth, y sgiliau a'r cysylltiadau sydd eu hangen arnynt i ddechrau eu busnesau/mentrau cymdeithasol eu hunain, neu ddatblygu a thyfu eu menter bresennol.

**EFFAITH Adeiladu ecosystem Entrepreneuriaidd:**

- Mae Prifysgol Aberystwyth yn rhan ganolog o eco-strwythur entrepreneuriaidd y Canolbarth ac rydym wedi ymrwymo i aros felly.
- Rydym yn trefnu ac yn cynnal sesiynau bob chwarter i rannu gwybodaeth, ar y cyd â Syniadau Mawr Cymru; y rhwydwaith modelau rôl, Hwb Menter y Canolbarth; Grŵp Colegau NPTC-Powys a Choleg Ceredigion, gan rannu adnoddau pan fo hynny'n ymarferol.
- Rydym yn cynnal cysylltiad rhwng Rhwydwaith Entrepreneuriaeth y Canolbarth (rhannu gwybodaeth) a Grŵp Menter Strategol y Brifysgol, sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

=====

**Dyma EFFAITH cael Arweiniad Strategol i yrru'r agenda entrepreneuriaeth yn y Brifysgol yn ei blaen:**

- Sicrhau bod Uwch Dîm Rheoli'r Brifysgol yn rhoi sylw digonol i Entrepreneuriaeth.
- Cadeirio'r Grŵp Menter Strategol, gan roi adroddiadau cynnydd i Dîm Gweithredol y Brifysgol.
- Mae'r Arweinydd Strategol ar gyfer Entrepreneuriaeth, yn ei dro, yn cael ei gefnogi gan gyfrifoldeb y Gyfadran dros Fenter trwy'r tri Uwch Hyrwyddwr Menter Cyfadrannol. Y rhain yw tri Deon Cyswllt Dysgu ac Addysgu y Cyfadrannau. Maent yn gyfrifol am weithgarwch Entrepreneuriaidd yn eu priod gyfadrannau.
- Yn eu tro, maent yn cael eu cefnogi gan Academyddion Hybu Menter, neu "AHM", sy'n gyfrifol am weithgarwch Entrepreneuriaidd yn eu hadrannau addysgu perthnasol. Er bod yr AHM yn gweithio'n unigol, mae gennym system sy'n cydlynu'r holl weithgarwch menter, sy'n ein galluogi i gofnodi ac adrodd yn ôl am yr wybodaeth hon.
- Yn ddiweddar rydym wedi atgyfnerthu brand AberPreneur a'r gwaith yr ydym yn ei wneud gyda rhywfaint o ddeunydd marchnata sy'n hyrwyddo'r 'Graddedigion yn Dechrau Busnes' newydd. Mae'r taflenni hyn yn cynnwys dau o'n graddedigion diweddar sydd wedi mynd ymlaen i gychwyn eu mentrau llwyddiannus eu hunain.

=====

**Ein "Partneriaid mewn Effaith" yn 2022-23:**

- Grŵp Gorchwyl Entrepreneuriaeth AGCAS. Mae Tony yn rhan o'r grŵp sy'n cynorthwyo Cynghorwyr Gyrfaoedd i gynghori myfyrwyr ar faterion entrepreneuriaidd (DU)
- Mae Tony yn rhan o Gymuned Ymarfer Entrepreneuriaidd ASPECT, grŵp sy'n hyrwyddo menter a dechrau busnes ymhlith myfyrwyr Gwyddorau Cymdeithasol (DU)
- EEUK – Rydym yn aelodau o'r sefydliad hwn ar gyfer Addysgwyr Menter (DU)
- Antur Cymru - cynnal gweithdai a darparu gwybodaeth ariannol i gleientiaid (Canolbarth)
- BANC – darparu gweithdai a gwybodaeth ariannol i gleientiaid (Cymru)
- Busnes Cymru/Syniadau Mawr Cymru - darparu gweithdai a mentora (Cymru)
- Hwb Menter Canolbarth Cymru (Canolbarth)
- ArloesiAber (Canolbarth)
- Aberystwyth Llawrydd – mae gennym berthynas sy'n fuddiol i'r ddwy ochr (Canolbarth)
- Grŵp Ymchwil Busnes Gwledig GRRaIN yn yr Ysgol Fusnes (Canolbarth)

=====

### Creu EFFAITH drwy 'Gysylltiadau â Chyn-fyfyrywyr':

- Yn **2022-23** parhawyd i ddatblygu perthynas fwy ffurfiol â DARO, gan gyfarfod â nhw yn rheolaidd i archwilio prosiectau cydweithredol.
- Rydym yn gwahodd cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd y Grŵp Menter Strategol ac yn parhau i gynnal cystadleuaeth Syniadau Myfyrywyr Gwobr Menter Aber a gaiff ei hariannu a'i beirniadu gan gyn-fyfyrywyr.

=====

### Creu EFFAITH drwy gefnogi Clybiau a Chymdeithasau Menter i sbarduno entrepreneuriaeth:

- Drwy gefnogi'r clybiau a'r cymdeithasau hyn, ein nod yw cyffroi'r meddylfryd entrepreneuraidd yn y gwahanol gymdeithasau a grwpiau a'u gwneud yn ymwybodol o'r cymorth a gynigir drwy'r Cyllid Grant Entrepreneuriaeth i leuenctid, er mwyn eu galluogi i fanteisio i'r eithaf ar y gwasanaethau a gynigir.
- Yn **2022-23**, parhawyd i ddatblygu perthynas waith agos gydag ysgrifenyddiaeth Clybiau a Chymdeithasau Undeb y Myfyrywyr gan graffu ar y clybiau a'r cymdeithasau presennol, a nodi'r rhai sydd â chysylltiadau entrepreneuraidd cryf.
- Edrychwyd ar fylchau hyfforddi o ran gweithio gyda swyddogion clybiau a chymdeithasau gan edrych ar eu hanghenion o ran hyfforddiant entrepreneuraidd sy'n seiliedig ar gymhwysedd.
- Yn **2022-23** parhawyd i weithio gydag Aberystwyth Llawrydd a'i aelodau.

=====


### Creu EFFAITH trwy hyrwyddo busnesau newydd a thwf busnesau:

- Yn **2022-23** gwnaethom barhau i weithio'n agosach fyth gyda cholegau a Phrifysgolion eraill Cymru i gynllunio, datblygu a chynnal cyfres o ddigwyddiadau menter ledled Cymru ar gyfer myfyrywyr a graddedigion.
- Aethom i'r Gynhadledd IEEC wyneb yn wyneb ym Mhrifysgol Surrey ym mis Medi **2022** i ddysgu am arferion gorau o ran rhaglenni eraill o'r fath a allai fod ar gael i ni.

=====

### Cyflawniadau EFFAITH 2022-23. Llwyddom i:

- YMGYSYLLTU â **960** o fyfyrywyr
- ARFOGI **622** "o ymweliadau â digwyddiadau a chymorth un-i-un" i fyfyrywyr a graddedigion gael cefnogaeth gyda'u syniadau busnes a mentrau cymdeithasol
- CEFNOGI **11** o'r myfyrywyr / graddedigion hyn i ddechrau masnachu fel mentrau busnes neu gymdeithasol
- YMGYSYLLTU ag **20** aelod o staff i hyrwyddo'r gwaith hwn (gan gynnwys **14** o AHM (Academyddion Hybu Menter ) a **6** Ymgynghorydd Gyrfaoedd)
- SICRHAU **£22,500** mewn arian parod a **£4,000+** "mewn nwyddau" o Fuddsoddiadau Preifat i gefnogi'r gwaith hwn



<https://www.aber.ac.uk/en/careers/enterprise/>